609

# CAN,

YN RHODDI YCHYDIG HANES

BYWYD A THRIAL

# WILLIAM PALMER,

AM

## Wenwyno J. Parson Cook,

YN RUGELEY, STAFFORDSHIRE,

*Am ba weithred echryslon dihenyddiwyd ef yn Stafford, dydd Sadwrn, y 14 o Fehefin, 1856, yn ngwydd dros ddeg mil ar hugain o edrychwyr. Cymerodd ei dreial le yn Llundain o flaen tri o'r prif Farnwyr, a pharhaodd am ddeuddeg niwrnod.*

---

*Ton—Bryniau yr Iwerddon.*

---

1.

Cydneswch Gymry mwynion, naws hoywlon a neshewch,
A diwyd rhowch wrandawiad i'r erchyll ganiad gewch ;
Cewch weled fel mae'r gelyn yn tori i mewn i'n tir,
Er cymaint a bregethir ar hyd ein gwlad yn glir.

2.

Mewn lle a elwir Rugely bu'r greulon erchyll graith,
Trwy Staffordshire, yn Lloegr, hir gofir am y gwaith,
Am dano gwyr y Saeson yn gyson nos a dydd,
Wrth gofio am fis Tachwedd maent 'nawr a'u bronau'n brudd.

3.

'Roedd yno deulu parchus am hir flynyddau'n byw,
Yn berchen ar feddiannau, ac aur ac arian gwiw,
Sef teulu William Palmer, hwn ddaeth i ddiwedd trwm:
Mae'i fam a'i blentyn gwelwn a'u calon fel y plwm.

4.

Ca'dd hwn ei fagu'n anwyl a mwynaidd gan ei fam,
A'i gofal yn wastadol rhag iddo gaffael cam,
Nes iddo dyfu fyny, a dilyn llwybrau drwg,
Sef ffordd sy'n arwain miloedd i wlad y maglau mwg.

5.

Bu'n cadw busnes Doctor, medd hanes amser hir,
Nes gwybod nerth pob gwenwyn yn ei gyffeiriau'n glir,
Trwy hyn mae'r holl wladwriaeth yn barnu yn gytun
I Cook ac amrai eraill gael diwedd gan y dyn.

6.

Ei wraig a'i frawd fu farw cyn hyn yn sydyn iawn,
Ac amryw heblaw hyny, yn ol yr hanes gawn,
A barnu mae'r Insurance i'aml un gael cam,
Mai marw wnaent trwy wenwyn heb niwed na un nam

7.

'Nol marw Cook mor sydyn daeth rhyw amheuaeth 'nawr
Mai Palmer a'i gwenwynodd er mwyn rhyw arian mawr
Cynhaliwyd cwest y Crowner er chwilio i mewn i'r gwaith,
A barnai pawb mai Palmer roes iddo greulon graith.

8.

'Nol hyn fe ga'dd ei gyrchu i garchar sound y sir
I aros dydd ei dreial, dan gloion dewrion dur,

X2052302G0

Lle bu dros bump o fisoedd yn dal i wadu'r gwir,
Ond daeth pob peth i'w erbyn i'r golau'n eitha clir.

9.

I Lundain ca'dd ei gyrchu, lle bu rhyw holi dwys
Ar dystion a doctoriaid ar beth o ddirfawr bwys;
Tri Judge oedd ar y treial a Jury parchus iawn,
Pob un yn manol chwilio, yn ol yr hanes gawn.

10.

Dros ddeuddeg dydd y parodd ei dreial, dyma'r gwir,
Ni bu 'mo'i fath yn Llundain mi wn am amser hir;
Ond daeth y dydd diweddaf y Jury yn gytun,
A'u barn hwy oedd yn unfryd mai euog oedd y dyn.

11.

'Nol hyn rhyw aeth a dychryn a lanwai yr holl lu,
Wrth wel'd tri Judge ar unwaith yn gwisgo y cap du,
A pasiwyd arno ddedfryd, gan ei gynghori'n ddwys
I 'mofyn am faddeuant, oedd beth o ddirfawr bwys.

12.

Lord Campbell a'i cynghorai i 'mofyn Crist a'i hedd,
Ac erfyn am faddeuant cyn myn'd o'r byd i'r bedd,
"Fe'ch barnwyd William Palmer i farw ar y pren,
'Mofynwch am faddeuant gan Awdwr da'er a nen.

13

Fe'ch cafwyd yma'n euog gan dystion amlwg iawn
O'r weithred fwyaf greulon mewn unrhyw hanes gawn,
Am hyn am 'chydig ddyddiau sydd genych ar y llawr,
Par'towch mae eto alwad o flaen y Barnwr mawr."

14.

'Nol hyn fe ga'dd ei gyrchu i garchar Staffordshire,
I aros dydd dienyddiad dan gloion dewrion dur,
Ca'dd yno ei gynghori i 'mofyn ffafar Duw,
Mae byr iawn oedd ei ddyddiau i fod ar dir y byw.

15.

Pan ddaeth y dydd i'w golli, ymgasglodd torf yn nghyd
I wel'd yr adyn hwnw yn cael ei yru o'r byd;
Tuag wyth o'r gloch y bore, er rhybudd pawb is rhod,
Ca'dd fyn'd i'r farn 'roi cyfrif yn ddeg ar hugain oed.

16.

Am awr y ca'dd ef hongiau er rhybydd i bob rhai
I gofio am William Palmer ga'dd ddyoddef am ei fai;
Roedd dros ddeng mil ar hugain o bobman wedi dod
I wel'd y llofrudd pena fu'n rhodio is y rhod.

17.

Cymerwch blant afradlon rybyddion yn ddiball,
Ca'dd miloedd eu dinystrio am iddynt foddio'r fall.
Gwnewch barchu eich rhieni a dysgu ofni Duw,
Trwy hyny chwi gewch lwyddiant yn bendant tra b'och byw.

18.

Trwy Staffordshire, yn Lloegr, y gyffes hanes hon
A barodd boen a blinder a briw i lawer bron;
Gobeithio na chawn etto ein blino â'r fath bla,
Amen, y Cymry mwynion, distewi'n union wna.

RICHARD HUGHES.